

Guy Norman



Lansio'r cwch prototeip *Seren Sailcraft* fel rhan o raglen gwneud lle y Lab ar gyfer Wythnos G.yl. Hwlffordd 2017.

**CELF AC ADFYWIO
YN HWLFFORDD 2014-17**

**BLWYDDYN 3 CERDYN COFNOD • CYMRAEG
I TACHWEDD 2016 – 31 HYDREF 2017**



cōnfluence



Cymeriadau hanesyddol o orffennol Hwlfordd yn atgyfodi fel pypedau llachar wedi'u creu gan yr artist lleol Toby Downing fel rhan o Afon o Oleuadau 2017.

Mae Confluence yn gydweithrediad creadigol rhwng [PLANED](#), [spacetocreate](#), [iDeA Architects](#), [Cyngor Bwrdeistref Sir Benfro](#) a [Pontio Hwlfordd](#). Ei nod yw dyfeisio a phrofi dulliau newydd a dychmygus o weithio yn Hwlfordd fydd yn dod â'r gymuned at ei gilydd er mwyn ysbrydoli a llunio'r broses o gynllunio ac adfywio'r dref.

Mae Confluence yn un o saith prosiect ledled Cymru sy'n cael cefnogaeth menter strategol Cyngor Celfyddydau Cymru [Creu Cymunedau Cyfoes](#). Trwy gyfrwng rhaglen arbrolol a elwir yn y Lab ac wedi'i chysylltu i gyfres o gomisiynau artistiaid, nod y prosiect yw **datblygu patrwm ar gyfer adfywio a arweinir gan gelf mewn trefi bach yng Nghymru**.

Er mwyn dilyn y stori hyd yn hyn, edrychwch ar y prosiect [llinell amser](#), sy'n adrodd hanes y prosiect o'r cyhoeddiad Creu Cymunedau Cyfoes, i'r presennol.

Defnyddir pedwar maes perfformiad i fesur cynnydd:

- 1 Newid canfyddiadau pobl am Hwlfordd
- 2 Nifer y bobl sy'n ennyn diddordeb yn y rhaglen ac yn rhoi adborth cadarnhaol
- 3 Cynyddu dealltwriaeth pobl o'r hyn all celf ei gynnig
- 4 Cefnogaeth ac ymrwymiad y bobl sy'n gwneud penderfyniadau allweddol ar ran y celfyddydau ac adfywio



Cyfranogwyr ar daith dywys yn edrych ar un o dros 30 o weithiau celf newydd wedi'u gosod mewn mannau gwladwy iawn o amgylch y dref fel rhan o [Breaking Out of the Gallery 2](#).

Ym **Mlwyddyn 3**, fe wnaeth y [Labordy Syniadau](#) ac [Haverfordwest Festival Week 2017](#) llwyfan i **ddenu cynulleidfaoedd newydd**, ehangu cyfranogiad a chefnogi mentrau celfyddydol ac adfywio ar lawr gwlad yn y dref.

Fe wnaeth [Film\\$4Change](#) lwyddo i fodelu defnyddiau ar gyfer adeiladau wedi'u haddasu wedi iddi dywyllu.

Bu busnesau lleol yn helpu i ddsbarthu'r gyfrol [The Poetry of Haverfordwest](#).

Fe wnaeth lansiad [Seren](#) arwain at Paddlewest - menter newydd sy'n llogi can od i archwilio'r Ardal Cadwraeth Arbennig ar Orllewin Cleddau.

Erbyn diwedd y flwyddyn, roedd aelodau gr p Facebook y Lab a'r bobl oedd wedi cofrestru ar gyfer y rhestr bostio wedi cyrraedd dros 1000. Roedd sylwadau ar y cyfryngau cymdeithasol, adborth a holiaduron yn ystod ac ar ôl digwyddiadau yn

gadarnhaol iawn, gyda 95% o'r 250+ o bobl yn sgorio'r digwyddiad Afon o Oleuadau fel da neu ragorol.

Gwnaeth dros 700 o bobl gymryd rhan mewn rhaglen amrywiol o weithdai celf ac adfywio, o'r prosiect mosaig cymunedol, [Something fishy](#), i'r gweithgareddau mapio asedau [Great Place](#).

Ar ddiwedd Blwyddyn 3, gorymdeithiodd tair mil o bobl trwy'r strydoedd fel rhan o'r digwyddiad Afon o Oleuadau, dathliad o'r amgylchedd adeiledig a'r bobl gyffredin sydd wedi gwneud cyfraniadau anhygoel i hanes y dref.

Gwelwyd y **newid mewn canfyddiadau** a'r ymdeimlad newydd o falchder dinesig yn amlwg iawn yn y gefnogaeth gymunedol i ddatblygu Haverhub - cynllun uchelgeisiol i gymryd perchnogaeth o, ac ailddatblygu'r hen Swyddfa Bost fel canolfan gymunedol.



Pysgotwagedd Llangwm yn ymgynnull ar y Stryd Fawr, uchafbwynt [Chwilio am y Canol](#), comisiwn yn archwilio seicoddaearyddiaeth Hwlfordd gan yr artist Janetka Platun.

Yn cael ei ymladd am y tro cyntaf ers blynyddoedd lawer, cafodd saith o gynghorwyr newydd eu hethol yn yr etholiad Cyngor Tref ym mis Mai, mae gan bedwar ohonynt gysylltiadau agos â gwaith Cydlifiad, gan gynnwys dau berson ifanc yn eu hugeiniau.

Parhaodd y cyfryngau print lleol i ddarparu llwyfan i hyrwyddo'r rhaglen ac i roi golwg fwy cadarnhaol o Hwlfordd gydag erthyglau rheolaidd yn y papur newydd wythnosol *Western Telegraph* a thaeniad dwbl yn y cylchgrawn misol *Pembrokeshire Life*.

Rhoddodd y cymhlethdodau a'r heriau o ddylunio cyfres o gerfluniau afon fel dathliad cyffyrddadwy o'r newidiadau cadarnhaol a oedd yn digwydd yn Hwlfordd gyfleoedd i **gynyddu dealltwriaeth o arferion celf cyfoes**. Erbyn diwedd y flwyddyn,

cyflwynwyd cais am ganiatad cynllunio ar gyfer y gwaith celf cyhoeddus cyntaf yn y dref ers 60 mlynedd gyda'r bwriad o osod y gwaith yn haf 2018.

Datblygwyd cysylltiadau gyda *National Theatre Wales* sy'n cychwyn ar raglen 4 blynedd yn Sir Benfro, a fydd yn darparu cyfleoedd i gefnogi gwaith newydd gan rwydwaith o ymarferwyr creadigol lleol sy'n dod i'r amlwg.

Edrychwyd ar gefnogaeth ac ymrwymiad **penderfynwyr allweddol** ym maes y celfyddydau ac adfywio yn [Doing Things Differently](#), cyfres o weithdai yn edrych ar fanteision posibl gweithio gydag artist, a oedd hefyd yn gyfle i lansio'r llyfryn a grëwyd gan Janetka Platun yn ystod y comisiwn [Searching for the Centre](#).



Y gerdd *Ode to Haverfordwest* wedi'i harddangos yn y stiwdios dros dro yn dilyn [Llythyrau i Hwlfordd](#), cyfres o weithdai creu printiau cymunedol.

Gwnaeth cyd-gynnal y digwyddiad rhwydwaith [Creu Cymunedau Cyfoes](#), ddod â 60 o ymarferwyr celf ac adfywio o bob cwr o Gymru i Hwlfordd, gan ddarparu sawl llwyfan ar gyfer trafodaethau dros y ddau ddiwrnod, yn ogystal â chyflwyno cynllun Lle Arbennig cronfa Dreftadaeth y Loteri fel modd posibl o greu gwaddol.

Rhannwyd amcanion, cyflawniadau a gwersi yn deillio o'r cynllun Cydlifiad ar draws Sir Benfro a Chymru trwy gyflwyniadau i: gynhadledd *Cymunedau Ystyrion* Engage Cymru yn Rhuthun; y digwyddiad rhwydwaith Celfyddydau Sir Benfro a lanswyd gan PLANED yn Nhyddewi, a'r digwyddiad a gynhaliwyd gan Gyngor Sir Penfro ar gyfer Consortiwm Awdurdodau Lleol Nghymru (CLAW).

Cynhaliodd [Stepping up](#), seminar ar gyfer artistiaid a sefydliadau celfyddydol gryfhau'r gefnogaeth ar gyfer sefydlu rhaglen gelfyddydol yn Hwlfordd yn y dyfodol. Cafodd pedair mentor gelfyddydol ac adfywio eu datblygu trwy raglen datblygu gwledig LEADER, gan gynnwys prosiect murlun tref a ddeilliodd o'r digwyddiad Dianc o'r Oriol, a chaffael gwasanaeth datblygu celfyddydol ledled y sir.